# Cynllun Busnes 2025-30

## Crynodeb Gweithredol

Dŵr Cymru Welsh Water

Hydref 2023

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Cefndir | 4 |
| 3. | Yr her o ran yr amgylchedd | 6 |
| 4. | Pennu'r nod hirdymor | 7 |
| 5. | Diogelu a gwella'r amgylchedd | 9 |
| 6. | Dŵr tap diogel ac o ansawdd uchel | 10 |
| 7. | Cyflenwad dŵr diogel a dibynadwy | 12 |
| 8. | Gwerth amgylcheddol a chymdeithasol ehangach | 13 |
| 9. | Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol | 15 |
| 10. | Cydnerthedd a diogelwch | 16 |
| 11. | Effeithlonrwydd ac arloesedd | 18 |
| 12. | Biliau a fforddiadwyedd | 19 |

# 1. Cyflwyniad

Yn Dŵr Cymru, rydym yn darparu gwasanaethau hanfodol i'n cwsmeriaid bob diwrnod o'r wythnos, drwy gydol y flwyddyn. Mae ein cwsmeriaid yn dibynnu arnom am eu dŵr yfed a'u defnydd dyddiol o ddŵr, gartref neu yn eu busnes. Mae ein gweledigaeth yn un syml: ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd.

Mae ein rhwydwaith carthffosiaeth a'n gwaith trin yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o ddiogelu'r amgylchedd rhag gweithgareddau dynol, fel nad oes rhaid i'n cwsmeriaid boeni am yr hyn sy'n digwydd i'w dŵr gwastraff. Caiff yr holl bethau hyn eu darparu am gost gyfartalog o tua £1.50 y diwrnod fesul aelwyd.

> Mae ein byd yn newid ac mae'n rhaid i ni newid gydag ef.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-30, ac mae'n rhan o gynllun mwy hirdymor i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cydnerth, cynaliadwy ac o ansawdd uchel ymhell i'r dyfodol.

Mae ein byd yn newid ac mae'n rhaid i ni newid gydag ef. Mae gennym nodau uchelgeisiol i wella canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid, gan leihau methiannau gwasanaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i ni hefyd addasu i wynebu'r heriau a gyflwynir gan y tueddiadau sy'n gweithio yn ein herbyn, yn enwedig newid hinsawdd.

### Cynllunio

Mae cynllunio yn golygu gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cyfaddawdu rhwng cyflawni uchelgeisiau hirdymor a chadw biliau mor isel â phosibl i gwsmeriaid. Er bod dyletswydd arnom i ymateb i'r rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir arnom gan ein rheoleiddwyr, yn enwedig o ran cydymffurfio â gofynion amgylcheddol ac ansawdd dŵr tap, rydym yn cydnabod bod cymdeithas hefyd yn bryderus iawn am y materion hyn ac am iddynt gael eu datrys cyn gynted â phosibl.

Yn benodol, mae ein cwsmeriaid wedi nodi na ddylid gohirio'r cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad yn ein busnes dŵr gwastraff er mwyn cadw biliau'n isel. Yn yr un modd, o'n rhan ni, byddwn yn ymdrechu i wella effeithlonrwydd a gwneud mwy am lai, gan reoli'r effaith ar fforddiadwyedd biliau dŵr yn ofalus

> Er mwyn gwneud y cynnydd gofynnol tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2050, bydd angen i ni herio ein hunain yn fwy nag erioed o'r blaen.

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi cefndir ein cynllun pum mlynedd, gan gynnwys sut mae'n cyd-fynd â'n gweledigaeth ar gyfer 2050. Yna, mae'n crynhoi'r cynllun ar gyfer 2025-30 o ran yr hyn y byddwn yn ei gyflawni, faint y bydd yn ei gostio a'r effaith ar filiau cwsmeriaid. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu'n ofalus drwy broses gydweithredol yng Nghymru a ymgorfforir gan Fforwm PR24, a gaiff ei arwain gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cynnwys ein holl reoleiddwyr allweddol. Cafwyd cyfraniadau eang gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid ehangach hefyd. Ar ôl cyflwyno'r cynllun ym mis Hydref 2023, bydd yn destun proses herio a chraffu trwyadl gan Ofwat, cyn cael ei gwblhau'n derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

### Uchelgais

Rydym yn falch o'r rôl rydym yn ei chwarae yn economi a chymdeithas Cymru, a'n model fel yr unig gwmni cyfleustodau heb gyfranddalwyr yng Nghymru a Lloegr. Ond i wneud y cynnydd gofynnol tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2050 bydd angen i ni herio ein hunain yn fwy nag erioed o'r blaen. Credwn fod y cynllun hwn yn rhoi ymateb uchelgeisiol i'r her honno, a bydd yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein rhwymedigaeth i 'ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd', heddiw ac am flynyddoedd i ddod.

# 2. Cefndir

Uchafbwyntiau allweddol

- Rhaglen buddsoddi cyfalaf werth £3.5 biliwn (68% yn fwy nag AMP7.
- Buddsoddiad dŵr gwastraff o £1.9 biliwn i warchod yr amgylchedd (85% yn fwy nag AMP7)
- Dychwelyd i sgôr 4 seren yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol.
- Atal niwed o 186 o Systemau Gorlif Storm blaenoriaeth sy'n achosi niwed i'r amgylchedd.
- Lleihau nifer yr achosion o lygredd 13% o 78 i 68 y flwyddyn.*
- Gostyngiad o 10% mewn gollyngiadau dŵr.*
- Lleihau cysylltiadau ynghylch ansawdd dŵr tap 43%*
- Cynyddu biliau 26%*. Estyn tariffau cymdeithasol i gwsmeriaid cymwys ar incwm isel.

*O amcangyfrifon 2025

Mae Dŵr Cymru yn darparu dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff i 1.4 miliwn o aelwydydd, busnesau ac eraill ar draws y rhan fwyaf o Gymru a rhai rhannau cyfagos o Loegr. Ni yw'r chweched cwmni mwyaf o'r 11 o gwmnïau dŵr a charthffosiaeth cyfun yng Nghymru a Lloegr o ran nifer y cwsmeriaid a wasanaethir.

### Maintais Glas Cymru

Ers 2001, mae Dŵr Cymru wedi bod yn eiddo i Glas Cymru, sef cwmni un diben heb gyfranddalwyr. Mae'r ffaith nad oes gennym gyfranddalwyr yn golygu ein bod wedi gallu buddsoddi gwerth £570 miliwn o arian ychwanegol er budd cymdeithas drwy fuddsoddiadau carlam er mwyn darparu gwell gwasanaethau a thariffau cymdeithasol i gefnogi ein cwsmeriaid mwyaf agored i niwed.

Rydym yn buddsoddi dros £1 miliwn bob dydd i gynnal a chadw ac uwchraddio'r seilwaith sy'n sail i'r gwasanaethau a ddarperir gennym, ar hyd miloedd o filltiroedd o bibellau, a channoedd o weithfeydd trin a gorsafoedd pwmpio.

Fodd bynnag, ein hased pwysicaf yw ein pobl; y 3,500 o staff hyfforddedig sydd allan ym mhob tywydd i sicrhau bod pethau'n llifo'n ddidrafferth, neu yn y swyddfa yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth gwych y maent yn ei haeddu.

Ein hased pwysicaf yw ein pobl; y 3,500 o staff hyfforddedig sydd allan ym mhob tywydd i sicrhau bod pethau'n llifo'n ddidrafferth.

### Set unigryw o heriau

Mae nodweddion ein hardal weithredu yn peri heriau unigryw i ni fel cwmni dŵr. Er bod y lefelau glawiad uchel o gymharu â rhannau dwyreiniol y DU yn gadarnhaol o ran adnoddau dŵr, maent hefyd yn peri heriau o ran llifogydd a rheoli dŵr wyneb a'n rhwydweithiau dŵr gwastraff.

Mae cyfran helaeth o'n poblogaeth ar wasgar mewn ardaloedd gwledig, sy'n golygu bod angen mwy o gilomedrau o bibellau a mwy o waith trin fesul cwsmer. Mae ein rhwydwaith dŵr yn seiliedig ar

gronfeydd dŵr ucheldirol a systemau disgyrchiant yn bennaf, sy'n golygu bod piblinellau yn gweithio ar wasgedd uchel iawn, gan gynyddu'r her pan fydd prif bibellau dŵr yn torri. Mae gennym forlin hir hefyd a llawer o afonydd bach sy'n sensitif yn ecolegol o gymharu â chwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi biliynau i sicrhau gwelliannau enfawr i gwsmeriaid a'r amgylchedd, sy'n golygu afonydd a moroedd glanach, rhwydwaith dŵr mwy dibynadwy, a llai o fethiannau gwasanaeth. Yn y ddegawd ddiwethaf, , drwy ysgogi effeithlonrwydd, arloesi a chostau ariannu is, mae biliau wedi bod yn fflat neu wedi gostwng mewn termau go iawn.

## Bodloni disgwyliadau

Er gwaethaf y gwaith trawsnewid hwn yn y gorffennol, rydym yn cydnabod yn llawn fod meysydd allweddol lle mae angen i ni wneud mwy i ddiwallu anghenion yr amgylchedd a disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n rheoleiddwyr.

Mae'n glir o'n rhyngweithio â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill mai ansawdd y dŵr yn ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol yw'r her sydd â'r brys mwyaf.

> Mae'n glir o'n rhyngweithio â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill mai ansawdd y dŵr yn ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol yw'r her sydd â'r brys mwyaf.

Hefyd, mae elfennau o'n gwasanaeth dŵr yfed lle rydym 'ar ei hôl hi' ac yn targedu gwelliannau mawr. Y meysydd hyn, yn enwedig cydymffurfiaeth o ran ansawdd dŵr yfed a thoriadau yn y cyflenwad dŵr, yw'r prif feysydd rydym yn canolbwyntio arnynt yn ein cynllun, ynghyd â diogelu ansawdd dŵr ein hafonydd a'n harfordiroedd. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r heriau a gyflwynir gan newid hinsawdd, a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg drwy waith ymchwil a monitro gwell. Byddwn yn trafod y materion hyn ymhellach mewn adrannau dilynol.

## Cydweithio

Rydym yn ffodus yng Nghymru fod gennym fframweithiau cydweithredol cryf, gan gynnwys Fforwm PR24, i'n galluogi i fynd i'r afael â'r heriau hyn a gweithio drwy'r cyfaddawdau anodd ar y cyd â'r llywodraeth, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill.

Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r penderfyniadau polisi a rheoleiddio perthnasol a wneir, ac mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac Ofwat yn parhau i gwmpasu Cymru a Lloegr, ond gyda chryn bresenoldeb yng Nghymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru), Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth Cymru i Ofwat, a 'Cyfeiriadau Strategol' Fforwm PR24 yn rhoi arweiniad clir ar yr amcanion a'r dulliau polisi yng Nghymru sy'n sail i'n cynlluniau.

# 3. Yr her o ran yr amgylchedd

Mae'r amgylchedd yng Nghymru dan fwy o fygythiad nag erioed o'r blaen. Pwysleisiodd yr Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019 bwysigrwydd sicrhau bod pawb yn chwarae eu rhan i leihau allyriadau nwyon tŷ. Yn y cyfamser, mae digwyddiadau tywydd eithafol yn dod yn fwy cyffredin, gyda llifogydd difrifol yn effeithio ar rannau o Gymru yn rheolaidd, ynghyd â chyfnodau mwy estynedig o dywydd sych yn yr haf.

Ym mis Mehefin 2021, datganodd y Senedd Argyfwng Hinsawdd, gan alw am i dargedau statudol gael eu gosod er mwyn atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Rydym yn ymrwymedig i chwarae ein rhan yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur y Llywodraeth i gynyddu iechyd a chydnerthedd yr ecosystemau y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt.

### Tasglu

Mae iechyd ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol yn benodol yn peri cryn bryder i'r cyhoedd ac yn flaenoriaeth amlwg i Lywodraeth Cymru. Er bod yn rhaid i bawb sy'n cyfrannu at y broblem gydweithio er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn cydnabod bod gennym rôl arweiniol i'w chwarae fel y nodir yn ein Maniffesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru (2023). Rydym yn cymryd rhan lawn yn Nhasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru, a sefydlwyd gan y Prif Weinidog yn 2022.

> Rydym wedi bod yn glir fod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol ac rydym wedi ymddiheuro yn gyhoeddus am unrhyw niwed amgylcheddol rydym yn ei achosi sy'n gysylltiedig â darparu ein gwasanaethau dŵr gwastraff.

Dau faes allweddol i'r Tasglu yw lleihau lefel y maethynnau, a ffosffadau yn benodol, yn yr afonydd sydd fwyaf sensitif yn ecolegol, a gweithredu Systemau Gorlif Storm. Mae gennym ddata llawer gwell am sut a phryd mae Systemau Gorlif Storm yn gweithredu erbyn hyn, ar ôl gosod monitorau yn 2015, ac roeddem ar flaen y gad yn y diwydiant yn hyn o beth.

Yn ddealladwy, mae'r data sy'n deillio o hyn wedi arwain at gryn bryder ymysg y cyhoedd a'r cyfryngau. Rydym wedi bod yn glir fod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol ac rydym wedi ymddiheuro yn gyhoeddus am unrhyw niwed amgylcheddol rydym yn ei achosi sy'n gysylltiedig â darparu ein gwasanaethau dŵr gwastraff. Rydym yn buddsoddi £140 miliwn yn 2020-25, gyda £100 miliwn ar gael drwy ein model heb gyfranddalwyr.

### Budd ecolegol

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwbl glir y dylai buddsoddiad ganolbwyntio ar gynyddu budd ecolegol gymaint â phosibl. Mae hyn yn wahanol i'r dull gweithredu yn Lloegr, lle y caiff targedau'r Llywodraeth eu mynegi ar ffurf lleihau nifer y gollyngiadau o systemau gorlif storm. Mae perygl y bydd canolbwyntio ar nifer y gollyngiadau yn unig yn taflu rhai gwahaniaethau pwysig i'r cysgod, ac yn annog penderfyniadau anfoddhaol mewn perthynas â blaenoriaethu camau gweithredu a buddsoddiad. Felly, rydym yn gwbl o blaid dull gweithredu Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi paratoi ein cynllun yn unol â hynny.

Er bod llawer o systemau gorlif storm yn gweithredu yn amlach nag y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl, mae'r mwyafrif yn gweithredu yn ôl y bwriad ac yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar y dyfroedd derbyn oherwydd y lefelau gwanediad uchel.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr i gadarnhau'r ffeithiau a phennu ble y gall buddsoddiad gael y budd ecolegol mwyaf. Byddwn yn gwneud cynnydd cyn gynted ag y gallwn, gan fod yn gwbl dryloyw ynghylch ein cynlluniau, cyflymder cyflawniad a'r perfformiad terfynol. Mae hwn yn fater cymhleth, a bydd cryn oblygiadau i lefel biliau cwsmeriaid yn yr hirdymor. Nodwn yn y Cynllun Busnes hwn y cynllun y cytunwyd arno gyda'n rheoleiddwyr a'r camau nesaf.

Mae'r heriau amgylcheddol hyn wedi'u gosod yn erbyn rhagolygon economaidd anodd ac argyfwng costau byw sy'n rhoi pwysau ariannol difrifol ar lawer o'n cwsmeriaid ar hyn o bryd.

### Sychder

Yn 2022, gwelwyd y sychder mwyaf difrifol yng Nghymru ers 1976. Er na fu'n rhaid i'r mwyafrif helaeth o gwsmeriaid gyfyngu ar eu defnydd o ddŵr, dangosodd y sychder her hirdymor cynnal adnoddau dŵr digonol. Gwnaethom ddysgu gwersi gwerthfawr am sut i reoli ein rhwydwaith dŵr yn well er mwyn ei wneud yn fwy cydnerth, ac rydym wedi ystyried y rhain yn llawn yn y cynllun hwn.

Mae'r heriau amgylcheddol hyn wedi'u gosod yn erbyn rhagolygon economaidd anodd ac argyfwng costau byw sy'n rhoi pwysau ariannol difrifol ar lawer o'n cwsmeriaid ar hyn o bryd. Cyfran fach o daliadau aelwydydd yw biliau dŵr, ond mae'n gyfran bwysig, yn enwedig i deuluoedd tlotach, ac ni fyddwn yn cynyddu biliau dŵr yn fwy nag sy'n gwbl angenrheidiol.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw ffynhonnell arall o incwm i ariannu buddsoddiad, ac nid yw ein cwsmeriaid am i ni ohirio'r buddsoddiad sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy yn yr hirdymor. Felly, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod biliau yn fforddiadwy i bawb, gan roi cymorth priodol i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu.

# 4. Pennu'r nod hirdymor

Mae ein Cynllun Busnes pum mlynedd ar gyfer 2025-30 wedi'i bennu yng nghyd-destun yr heriau hirdymor a'n nod ar gyfer 2050. Rydym wedi gweithio gyda Hafren Dyfrdwy, Llywodraeth Cymru a'n rheoleiddwyr allweddol i ddatblygu Gweledigaeth ar gyfer y Sector Dŵr yng Nghymru. Mae'r weledigaeth hon yn dangos y math o sector dŵr rydym am fod, a'r gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu, nawr ac yn y dyfodol.

### Cenedlaethau'r dyfodol

Ein cenhadaeth hirdymor, fel y nodwyd yn Dŵr Cymru 2050, yw "dod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol." Nid yw'r uchelgais hwn erioed wedi bod mor bwysig o ystyried yr heriau sydd o'n cwmpas. Nododd Dŵr Cymru 2050, a gyhoeddwyd yn 2018, y tueddiadau hirdymor sy'n effeithio ar ein gweithgareddau, a'r 18 Ymateb Strategol y mae angen i ni eu rhoi ar waith er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd hynny yn yr hirdymor.

Yn 2022, gwnaethom gyhoeddi ein hadolygiad pum mlynedd o'r ddogfen honno, gan ystyried y digwyddiadau mawr a'r datblygiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Yn benodol, nododd yr Adolygiad o adroddiad Dŵr Cymru 2050 yr angen i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol, o ystyried y dystiolaeth gynyddol o newid hinsawdd sy'n dod i'r amlwg mewn digwyddiadau tywydd eithafol a'u heffaith ar ein gwasanaethau amgylcheddol a'n gwasanaethau dŵr yfed.

Mae cynllun AMP8 yn cynrychioli rhan o strategaeth hirdymor hyd at 2050 a thu hwnt.

Ochr yn ochr â'r Cynllun Busnes hwn, ac yn unol â chanllawiau Ofwat, rydym wedi datblygu ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor sy'n adeiladu ar Dŵr Cymru 2050, gan nodi'n fanwl y buddsoddiad sydd ei angen i wella gwasanaeth ac ymateb i dueddiadau hirdymor, yn ogystal â'r canlyniadau a'r ymrwymiadau perfformiad rydym yn bwriadu eu cyflawni erbyn 2050. Mae'r strategaeth hon yn dwyn ynghyd ein

holl gynlluniau hirdymor mewn un lle ac yn egluro sut y byddem yn ymateb i'r ansicrwydd a'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r busnes.

### Cynllunio ar gyfer ymaddasu

Mae'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor yn cadarnhau, o ystyried yr heriau a wynebwn, y bydd yn rhaid i ni fuddsoddi mwy, nid yn unig dros y pum mlynedd nesaf ond yn yr hirdymor hefyd, er mwyn cyflawni ein nodau ar gyfer 2050. Bydd angen cynyddu'r buddsoddiad hwn yn briodol fesul cam er mwyn sicrhau bod gennym ni a'n partneriaid y gallu i gyflawni'r prosiectau cyfalaf sydd eu hangen wrth reoli'r effaith ar filiau cwsmeriaid.

Rydym wedi paratoi'r strategaeth yn unol ag egwyddorion cynllunio ar gyfer ymaddasu, sy'n helpu i sicrhau nad ydym yn gwario arian cwsmeriaid nes bod gennym sicrwydd digonol o ran y gofynion a'r ffordd orau o gyflawni'r ateb hirdymor.

### Gwerth gorau

Beth bynnag a ddaw yn y dyfodol, rydym yn ymrwymedig i sicrhau'r gwerth gorau posibl i'n cwsmeriaid, o ran y ffordd rydym yn asesu opsiynau buddsoddi ac yn darparu datrysiadau. Lluniwyd y Cynllun Busnes gan ddefnyddio prisiadau amlgyfalaf lle bynnag y bo modd er mwyn ystyried manteision ehangach datrysiadau gwahanol, gan gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r effaith ar fioamrywiaeth ac effeithiau amgylcheddol eraill yn yr hirdymor.

Mae ein cwsmeriaid yn disgwyl i ni wneud y peth cywir ar gyfer yr hirdymor, a gan nad oes gennym gyfranddalwyr sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau byrdymor ar draul nodau hirdymor, gallwn ymrwymo o ddifrif i'r dull gweithredu hwn. Fodd bynnag, mae Cynllun Busnes AMP8 yn cynrychioli cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad o gymharu â chyfnodau blaenorol, a hynny wedi'i ysgogi bron yn gyfan gwbl gan ofynion statudol a gofynion rheoleiddiol eraill, ac nid yw'n cynnwys fawr ddim gwariant dewisol er mwyn lleihau'r effaith ar filiau.

### Gweledigaeth ar y Cyd ar gyfer y Sector Dŵr yng

Byddwn yn sefydlu'r sector dŵr yng Nghymru fel model **cydweithredu effeithiol** ar gyfer sicrhau **perfformiad rhagorol** yn erbyn cefndir yr argyfwng hinsawdd a natur.

Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr i **gyd-lunio a darparu datrysiadau yn y ffordd fwyaf effeithlon yn yr hirdymor**, ar ôl ystyried anghenion ein cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas yn llawn. Byddwn yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth y bobl rydym yn eu gwasanaethu yn ein gweithlu.

**Byddwn yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid ac yn rhoi gwybodaeth iddynt**, gan eu helpu i chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â heriau'r dyfodol. Byddwn bob amser yn ymatebol i'w hanghenion a'u disgwyliadau newidiol, gan roi sylw arbennig i gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus.

Byddwn yn sicrhau **ansawdd dŵr yfed ardderchog**, gan weithio mewn dalgylchoedd i ddiogelu ansawdd dŵr heb ei drin. Byddwn yn **uwchraddio ein rhwydwaith** er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y dyfodol ac yn gydnerth i ymdopi â bygythiadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Byddwn yn cefnogi **amgylchedd ffyniannus** yn ein hafonydd a'n moroedd drwy reoli a thrin dŵr gwastraff yn effeithiol, uwchraddio capasiti'r rhwydwaith a gwaith trin pan fo angen ac ymdrin â phatrymau glawiad newidiol. Byddwn yn sicrhau allyriadau carbon sero net ac yn ceisio mynd gam ymhellach.

Byddwn yn manteisio ar **ddatblygiadau arloesol** ac yn addasu wrth i'r byd newid, gan sicrhau bod biliau mor fforddiadwy â phosibl. Byddwn yn darparu gwasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# 5. Diogelu a gwella'r amgylchedd

Mae Cymru yn enwog am ei thirwedd drawiadol, ei hardaloedd gwledig hardd, ei hafonydd a'i morlinau adnabyddus a'i chymunedau amaethyddol ffyniannus. Mae'n croesawu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn i fwynhau'r amgylchedd naturiol a phrofi ei diwylliant a, thrwy hynny, yn cefnogi incymau gwledig a busnesau lleol ledled Cymru. Mae diogelu a gwella'r etifeddiaeth werthfawr hon yn hanfodol er ei lles ei hun, ond hefyd er mwyn cefnogi bywoliaeth a llesiant cymdeithasol yn fwy cyffredinol.

Teitl ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-30 yw: "Ymateb i'r Her". Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'n cynlluniau i wneud mwy i ddiogelu'r amgylchedd, yn enwedig er mwyn lleihau effaith ein gweithrediadau ar ansawdd dŵr afonydd yn sylweddol. Rydym yn llwyr gydnabod pryder cynyddol y cyhoedd mewn perthynas ag iechyd afonydd ac yn rhannu'r pryder hwn, a byddwn yn ymateb i'r her hon yn gadarn. Mae angen i ni hefyd chwarae ein rhan i hwyluso gwaith i ddatblygu tai ac eiddo masnachol pan fydd lefelau maethynnau afonydd yn creu cyfyngiadau.

> Byddwn yn targedu'r systemau gorlif storm sy'n cael yr effaith fwyaf, ac yn sicrhau nad oes unrhyw systemau gorlif storm yn peri niwed ecolegol erbyn 2040.

### Ymrwymiad

Mae ein cwsmeriaid yn dweud wrthym eu bod yn poeni'n fawr am yr amgylchedd ac yn pryderu am y problemau y maent yn eu gweld. Er y bydd angen buddsoddi dros sawl AMP i ailstrwythuro'r system garthffosiaeth bresennol, fel y nodir yn ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor, mae ein cynllun ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn dangos newid sylweddol yn ein hymrwymiad i'r amgylchedd. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni ymateb i'r angen i wella ansawdd dŵr tap, gwneud cynnydd o ran ymaddasu i newid hinsawdd a pharhau â'n hymdrechion i sicrhau allyriadau carbon sero net.

Mae ein cynllun ar gyfer yr amgylchedd yn mynd mor gyflym ag sy'n bosibl yn ein barn ni er mwyn i ni allu ei gyflawni, ei fforddio, a'i gyllido. Ein huchelgais yw cyflawni mwy am lai drwy ddefnyddio dulliau newydd arloesol, ar ein pen ein hunain ac wrth weithio gyda phartneriaid.

### Ansawdd dŵr afonydd

Mae'r cyfanswm o ran buddsoddiad dŵr gwastraff i ddiogelu'r amgylchedd byn £1.9 biliwn dros bum mlynedd, o'i gymharu gyda £1 biliwn yn AMP7. Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd lle y gall y gwariant wneud y gwahaniaeth mwyaf o ran budd amgylcheddol. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn alluogydd pwysig i gefnogi datblygiadau tai cymdeithasol a datblygiadau masnachol newydd, sy'n un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru.

Mae angen y mwyafrif helaeth o'r buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio yn yr amgylchedd er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau rheoleiddiol yn unol â'r Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol (Cymru) a Chynllun Amgylcheddol Cenedlaethol y Diwydiant Dŵr (ar gyfer ein hardaloedd yn Lloegr). Mae hyn yn cynnwys ein rhwymedigaeth i ddiogelu bioamrywiaeth a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), lle y byddwn yn ailosod prif garthffos arfordirol y de-ddwyrain rhwng Magwyr a Chasnewydd a fydd yn costio £78 miliwn.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ers peth amser i ddatblygu dull hirdymor o fuddsoddi a mynd i'r afael ag effaith ein 2,300 o systemau gorlif storm ar yr amgylchedd. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar y data sydd ar gael o'r monitorau a osodwyd ar bob system gorlif storm ers 2015, a'r asesiadau mwy diweddar a pharhaus o effaith ecolegol systemau gorlif storm sy'n gorlifo'n aml.

Bydd y wybodaeth hon yn ein galluogi i dargedu'r systemau gorlif storm sy'n peri'r niwed mwyaf yn gyntaf, a sicrhau'r budd ecolegol gorau posibl. Nid ydym yn canolbwyntio ar leihau nifer y gollyngiadau yn unig, oherwydd mae'n bosibl mai ychydig iawn o wahaniaeth y byddai hyn yn ei wneud i'r amgylchedd. Mae buddsoddi mewn systemau gorlif storm yn rhan o raglen waith ehangach i wella ansawdd dŵr afonydd yng Nghymru, yn enwedig drwy leihau lefelau ffosfforws.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyflawni ein rhan o Gynllun Gweithredu Uwchgynhadledd Cymru ar Ffosffadau drwy leihau gollyngiadau ffosfforws i afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn sylweddol, gan gyflawni 90% o'r gostyngiad sydd ei angen i ddileu'r niwed i'r afonydd hyn a achosir gan ffosffadau o all-lifoedd gwaith trin dŵr gwastraff, ar sail 'cyfran deg' y cytunwyd arni.
- Cyflawni ein hymrwymiad a nodwyd yn ein Maniffesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru drwy fynd i'r afael â'r systemau gorlif storm sy'n cael yr effaith amgylcheddol fwyaf, gan symud 186 o systemau gorlif storm o'r categorïau niwed 'uchel' neu 'ddifrifol' i'r categori isaf, a chynyddu cyfran y systemau gorlif storm nad ydynt yn achosi unrhyw niwed o 53% i 61% erbyn 2030, ac i 100% erbyn 2040.
- Lleihau nifer y digwyddiadau yn ymwneud â llygredd (categori 1, 2 a 3) a achosir gennym o 89 yn 2022 i 68 yn 2029, a mynd i'r afael â'r asedau hynny sy'n peri risgiau cynyddol o achosion 'difrifol' o lygredd (categori 1 a 2), gan gynnwys prif garthffos arfordirol y de-ddwyrain.
- Dychwelyd i sgôr 4 seren yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol.

# 6. Dŵr tap diogel ac o ansawdd uchel

Mae cael dŵr glân a diogel ar gyfer yfed ac at ddiben eich aelwyd neu fusnes yn hanfodol ar gyfer bywyd pob dydd ac yn rhan ganolog o'n cenhadaeth. Mae gennym ddull gweithredu 'o'r tarddiad i'r tap' i sicrhau bod dŵr tap o ansawdd ardderchog bob dydd, gan gwmpasu popeth o'r ucheldiroedd lle mae'r dŵr glaw yn disgyn i'r pibellau sy'n cludo'r dŵr i eiddo cwsmeriaid.

## Ymddiriedaeth a hyder

Caiff diogelwch ac ansawdd dŵr tap eu gorfodi a'u monitro'n agos gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed fel y gall cwsmeriaid fod yn hyderus ac ymddiried yn llawn yn yr hyn sy'n dod o'r tap. Nod mesur y Mynegai Risg Cydymffurfio yw meintoli risgiau yn seiliedig ar nifer y samplau sy'n methu. Er gwaethaf gwelliannau yn 2022, mae angen i ni wella ein perfformiad mewn perthynas â'r Mynegai Risg Cydymffurfio gan fod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys methiannau bacteriolegol mewn gwaith trin dŵr a phrosesau cynnal a chadw cronfeydd dŵr wedi'u trin, wedi effeithio ar ein perfformiad yn ddiweddar.

> Bydd ein cynllun yn sicrhau bod cynnydd mewn perthynas â'r risg i gydymffurfiaeth o ran ansawdd dŵr yfed yn cael ei gynnal hyd at 2030 a thu hwnt.

Mae Cynllun Adfer Dŵr Yfed yn cael ei roi ar waith, sy'n cynnwys pwyslais ar lanhau ac archwilio tanciau, gyda'r nod o sicrhau bod perfformiad yn bodloni'r disgwyliadau unwaith eto erbyn 2025. Bydd y Cynllun Busnes yn sicrhau y cynhelir y cynnydd hwn hyd at 2030 a thu hwnt, gyda mesurau yn cynnwys buddsoddi i leihau presenoldeb haearn sy'n gysylltiedig â phibellau haearn bwrw.

## Afliwio

Mae perfformiad mewn perthynas ag achosion o afliwio dŵr tap yn parhau i beri her, ac rydym yn cael nifer cyfatebol mwy o gysylltiadau gan gwsmeriaid ynghylch y mater hwn na chwmnïau eraill. Mae hwn yn fater cymhleth, sy'n ymwneud ag ansawdd newidiol

dŵr heb ei drin yn ein cronfeydd dŵr, llifau uchel yn y rhwydwaith yn ystod cyfnodau sych, a'r rhyngweithiad rhwng cyfansoddion yn y dŵr a deunyddiau pibellau.

Un o'r prif broblemau yw lefel y manganîs, sef sylwedd sy'n ymddangos yn naturiol yn y dŵr. Rydym yn bwriadu gostwng y lefel hon drwy dargedu buddsoddiad mewn gwaith trin dŵr, gan reoli ansawdd dŵr heb ei drin yn y dalgylchoedd ar yr un pryd. Fodd bynnag, nid oes modd sicrhau gwelliant parhaus heb gyflymu gwaith i newid hen brif bibellau sydd wedi'u gwneud o haearn bwrw. Felly, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys buddsoddiad pellach o £150 miliwn i osod pibellau modern yn lle tua 100 cilometr o brif bibellau haearn bwrw.

### Plwm

Mae'r pibellau cyflenwi dŵr sydd ar eiddo cwsmeriaid ac y maent yn berchen arnynt yn effeithio ar ansawdd y dŵr tap hefyd. Er nad cyfrifoldeb y cwmni dŵr yw hyn, mae gennym yr arbenigedd a'r gallu i gefnogi ymdrech gymdeithasol i fynd i'r afael ag etifeddiaeth niweidiol pibellau cyflenwi dŵr plwm. Yn AMP8, byddwn yn parhau i newid pibellau cyflenwi plwm cwsmeriaid am ddim fel rhan o raglen hirdymor, wrth chwilio am ffyrdd mwy cost effeithiol o wneud hynny.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod ein sgôr cydymffurfio mewn perthynas ag ansawdd dŵr tap yn gyson â gweddill y diwydiant unwaith eto erbyn 2025 a chynnal hyn, gan sicrhau ein bod yn bodloni'r hysbysiadau rheoleiddiol a'r canllawiau a gyflwynir gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.
- Lleihau nifer y cysylltiadau ynghylch "derbynioldeb dŵr" o 1.75 fesul 1,000 o gwsmeriaid yn 2025 (amcangyfrif) i 1.0 yn 2030 drwy reoli ansawdd dŵr heb ei drin, gostwng lefelau manganîs mewn gweithfeydd trin a gosod pibellau newydd yn lle 100 cilometr o brif bibellau haearn bwrw.
- Newid 7,500 o bibellau plwm rhwng eiddo cwsmeriaid a'n rhwydwaith er mwyn diogelu iechyd a chefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael 'Cymru ddi-blwm'.
- Gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill mewn dalgylchoedd ucheldirol er mwyn atal dirywiad mewn dŵr heb ei drin rhag cyrraedd ein cronfeydd dŵr.
- Gwneud gwaith ymchwil pellach gyda'n partneriaid academaidd (gan gynnwys Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth, a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg) er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r newid yn ansawdd dŵr heb ei drin dros amser, yr hyn sy'n ei achosi a'i sbarduno, a sut y gallwn fynd i'r afael â'r her hon drwy brosesau rhagweld a thrin gwell.

# 7. Cyflenwad dŵr diogel a dibynadwy

Dylai cwsmeriaid allu dibynnu ar ddŵr sydd ar gael pryd bynnag y mae ei angen arnynt, nawr ac yn y dyfodol.

Ar y cyfan, nid yw achosion byrdymor o darfu ar y cyflenwad yn destun pryder mawr yn ôl cwsmeriaid, ond gall achosion o'r fath beri cryn anghyfleustra pan fyddant yn digwydd. Pan fydd prif bibellau yn byrstio ac yn effeithio ar gyflenwadau, byddwn yn gweithio'n galed i adfer cyflenwad cwsmeriaid cyn gynted â phosibl. Byddwn hefyd yn sicrhau bod poteli dŵr ar gael ac yn eu dosbarthu i gwsmeriaid sy'n agored i niwed.

### Cyflenwad

Ein targed rheoleiddiol yw cyflawni sgôr 'nifer cyfartalog y munudau a gollwyd' o 5:00 munud erbyn 2025, o 17:46 yn 2020. Mae'r lefel hon o welliant yn heriol gan fod achosion mawr o fyrstio, ynghyd â'r amodau tywydd anarferol yn 2022, wedi effeithio ar ein perfformiad yn ddiweddar. Felly, rydym yn rhagweld y bydd ein perfformiad tua 8 munud yn AMP7. Bydd hyn yn dal i fod yn hwy na chwmnïau dŵr yn unig llai sydd â rhwydweithiau mwy integredig ac sy'n gallu cyflawni'r targed rheoleiddiol o 5:00 munud yn well.

Rydym yn benderfynol o gau'r bwlch hwn ac, er gwaethaf ein rhwydwaith mwy o faint a mwy gwahanol, byddwn yn pennu targed rheoleiddiol i'n hunain o 5:00, gan wella i 4:30 erbyn 2030, gyda chymorth buddsoddiad o £66 miliwn mewn cydnerthedd er mwyn newid prif bibellau sment asbestos. Mae'r prif bibellau hyn yn byrstio yn fwy a mwy aml oherwydd amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys oedran a chyflwr y ddaear. Sment asbestos yw prif ddeunydd pibellau yng Ngorllewin Cymru lle y ceir cynnydd sylweddol yn y galw o ganlyniad i dwristiaeth.

> Byddwn yn buddsoddi £66 miliwn ychwanegol i ddiogelu iechyd asedau drwy newid deunyddiau prif bibellau sy'n byrstio yn amlach o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys cyflwr newidiol y ddaear.

### Rhewi/dadmer

Rydym yn deall mai prif flaenoriaeth ein cwsmeriaid yn y maes hwn yw lliniaru'r risg y bydd achosion mawr ac estynedig o darfu ar gymunedau mawr neu fach, drwy wneud ein rhwydweithiau yn fwy cydnerth yn yr hirdymor a rhoi gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau mawr ar waith, megis y tywydd rhewllyd a'r cyfnod o ddadmer ym mis Rhagfyr 2022. Yma, unwaith eto, mae angen cefnogaeth a chydweithrediad cwsmeriaid arnom, gan mai achosion o bibellau sy'n eiddo i gwsmeriaid yn byrstio oedd yn gyfrifol am lawer o'r problemau a welwyd bryd hynny. Yn y cynllun hwn, rydym wedi cynnwys buddsoddiad gwerth £51 miliwn i wella cydnerthedd drwy osod rhyng-gysylltwyr rhwydwaith, fel rhan o'r strategaeth hirdymor yn y maes hwn.

### Adnoddau dŵr

Yn sail i'r holl bethau uchod y mae'r angen i sicrhau bod digon o gyflenwadau dŵr ar gael yn yr hirdymor, wrth i'r hinsawdd newid. Ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yw'r fframwaith cynllunio strategol sy'n sicrhau hyn. Mae ein gwaith modelu yn dangos y dylem allu gydbwyso'r cyflenwad dŵr a'r galw amdano drwy fesurau cynyddrannol yn bennaf, megis lleihau gollyngiadau dŵr ac annog cwsmeriaid i ddefnyddio llai o ddŵr, heb fod angen buddsoddi'n sylweddol. Y flaenoriaeth felly yw sicrhau bod ein hystad hanesyddol o argaeau a chronfeydd dŵr yn parhau i fod yn addas at y diben yn yr hirdymor, ac yn gallu mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn unol â'r rheoliadau diweddaraf.

# 8. Gwerth amgylcheddol a chymdeithasol ehangach

Fel un o'r cwmnïau mwyaf yng Nghymru sy'n defnyddio llawer o ynni ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, mae gennym gyfrifoldeb i gymdeithas i gyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. Er nad ydym yn 'gorff cyhoeddus' yn ôl y gyfraith, rydym yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae ein cynlluniau yn cefnogi ymdrechion i gyflawni'r saith Nod Llesiant.

## Carbon niwtral

Mae ein gweithrediadau dŵr gwastraff yn ymwneud, yn y bôn, â lleihau effaith cymdeithas ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, nid dyma yw ein hunig effaith ac mae gennym amcanion uchelgeisiol yn y cynllun hwn hefyd i leihau ôl troed y cyflenwad dŵr drwy fynd i'r afael â gollyngiadau dŵr amgylcheddol, lleihau achosion o dynnu dŵr o afonydd, a lleihau'r ynni a ddefnyddir i drin a phwmpio dŵr.

Y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau craidd, rydym yn gwneud llawer mwy i gyfrannu at lesiant cymdeithasol ac amgylcheddol. Ein nod yw bod yn gwmni carbon niwtral erbyn 2040, gan gynnwys mewn perthynas â charbon corfforedig, a fydd yn golygu dod o hyd i ffyrdd o gyflawni ein rhaglen buddsoddi cyfalaf fawr mewn ffyrdd carbon isel sy'n ystyriol o fyd natur. Fel tirfeddiannwr a defnyddiwr mawr, gallwn gael effaith wirioneddol ar yr argyfwng natur hefyd, ac rydym yn cydweithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i hybu bioamrywiaeth a diogelu a gwella mawndiroedd. Mae ein gwaith partneriaeth mewn dalgylchoedd dŵr ucheldirol yn helpu i ddiogelu ecosystemau rhag effeithiau llygredd gwasgaredig.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyflawni targed o 4.5 munud o ran nifer cyfartalog y 'munudau' a gollir pan fydd rhywbeth yn tarfu ar y cyflenwad.
- Lleihau nifer y gollyngiadau dŵr yn ein rhwydwaith 10% (yn erbyn llinell sylfaen 2019-20), a helpu cwsmeriaid i fynd i'r afael â gollyngiadau yn eu cartrefi a'u busnesau. Gweithio gyda chwsmeriaid i leihau defnydd y pen aelwydydd 7% erbyn 2030.
- Cyflymu ein rhaglen mesuryddion hirdymor, a fydd yn darparu data gwell i gwsmeriaid am eu defnydd o ddŵr, heb symud i fesurydd gorfodol. Erbyn 2030, ein nod yw bod gan 78% o'n cwsmeriaid preswyl fesurydd, o gymharu â 51% ar ddiwedd AMP7.
- Buddsoddi £66 miliwn i newid 174 cilometr o brif bibellau sment asbestos sy'n mynd yn hen. Buddsoddi £51 miliwn i gysylltu parthau cyflenwi, gan wella cydnerthedd yn erbyn y risg gefndirol gynyddol o ddigwyddiadau tebygolrwydd isel, ond risg uchel sy'n bygwth cyflenwadau.
- Parhau â'r rhaglen hirdymor i gynnal a chadw ac uwchraddio argaeau, gan fynd i'r afael â 29 argae â blaenoriaeth, a fydd yn costio £79 miliwn.

Ein nod yw bod yn gwmni carbon niwtral erbyn 2040, gan gynnwys mewn perthynas â charbon corfforedig, a fydd yn golygu dod o hyd i ffyrdd o gyflawni ein rhaglen buddsoddi cyfalaf fawr mewn ffyrdd carbon isel sy'n ystyriol o fyd natur.

## Llesiant

Mae ein Cronfa Gymunedol yn cefnogi grwpiau lleol sy'n awyddus i wella eu cymunedau ledled ein hardal. Yn 2022 yn unig, gwnaeth dros 252 o elusennau a sefydliadau o bob cwr o Gymru a Swydd Henffordd elwa ar y gronfa.

Yn 2023, gwnaethom agor canolfan ymwelwyr a hamddena newydd yng ngogledd Caerdydd i'w hychwanegu at y pedair canolfan sydd eisoes gennym ger cronfeydd dŵr ledled Cymru, gan gynnig cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau byd natur a chyfleusterau hamdden o'r radd flaenaf. Mae ein Cronfa Gymunedol wedi rhoi mwy na £450,000 i gefnogi mentrau lleol ledled Cymru ers ei lansio yn 2017. Rydym yn parhau i ddarparu rhaglenni addysg am y cylch dŵr i blant ysgol, gan symud i sesiynau ar-lein yn ystod y pandemig.

Yn y Cynllun Busnes hwn, nodwn fanylion ein nodau hirdymor i gynyddu ein cyfraniad i gyflawni nodau amgylcheddol a chymdeithasol Cymru.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2040.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'n budd-ddeiliaid er mwyn gwella bioamrywiaeth ar ein tir drwy adfer cynefinoedd diffygiol.
- Croesawu dros 900,000 o ymwelwyr y flwyddyn i'n canolfannau ymwelwyr a hamddena a rhoi gwybodaeth i 80,000 o blant y flwyddyn am y cylch dŵr drwy ein rhaglen addysg.
- Parhau i arwain ymdrechion cydweithredol i ddeall yn well sut y gall cymdeithas fynd i'r afael ag ymdrechion amgylcheddol yn deg ac yn effeithiol, megis ein gwaith diweddar ar fodelu ffynonellau llygredd, y mae'r canlyniadau ar gael yn gyhoeddus i bob sector.
- Parhau i gyfrannu'n weithredol at Fyrddau Rheoli Maethynnau Afonydd, gan gydnabod bod yn rhaid i bawb dan sylw weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael ag ansawdd dŵr afonydd.
- Cyflymu ymdrechion, drwy waith ymchwil a threialon, i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithredu mewn ffordd fwy cynaliadwy. Ein hamcan hirdymor yw i ddatrysiadau dalgylchoedd a seiliedig ar natur gael eu defnyddio fel yr opsiynau diofyn, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheoleiddwyr i sicrhau'r arloesedd a'r hyblygrwydd rheoleiddiol sydd eu hangen i alluogi hyn.

# 9. Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Ein gweledigaeth o ran gwasanaeth cwsmeriaid yw "ennyn ymddiriedaeth cwsmeriaid bob dydd". Mae ein henw da ymysg ein cwsmeriaid yn hanfodol, nid yn unig fel testun balchder, ond oherwydd bod angen iddynt ymddiried ynom a chydweithio â ni er mwyn ateb yr heriau sydd o'n blaen.

Rydym yn perfformio'n dda ar fesur gwasanaeth cwsmeriaid preswyl Ofwat ar gyfer y diwydiant, C-MeX, ac wedi cyrraedd y pum safle uchaf yn ystod y pedair blynedd diwethaf rhwng 2019 a 2023. Ein nod yw bod yn un o'r cwmnïau sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr, bob blwyddyn.

Mae pob un o'n cwsmeriaid, gan gynnwys cwsmeriaid sy'n fusnesau ac yn ddatblygwyr, oll yn haeddu gwasanaeth ardderchog ac rydym yn benderfynol o sicrhau eu bod yn ei gael. Ein sgôr boddhad cwsmeriaid busnes gyfartalog oedd 88% (4.4/5) dros y tair blynedd diwethaf, a byddwn yn gwneud ein gorau glas i gynnal a gwella'r safle cryf hwnnw yn y dyfodol. Rydym hefyd yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid amrywiol sy'n ddatblygwyr, yn enwedig o ystyried y gofynion rheoleiddiol a'r cyfyngiadau ychwanegol ar ddatblygwyr yng Nghymru.

### Newid disgwyliadau

Er mwyn cynnal y lefelau uchaf o wasanaeth, mae angen i'n busnes cyfan gydweithio yn effeithiol, o'r rhai sy'n delio â galwadau i'r timau gweithredol. Mae disgwyliadau cwsmeriaid yn newid, wrth i dechnoleg godi safonau ar draws y sector manwerthu a gwasanaethau. Mae'r cynllun hwn yn parhau i fuddsoddi er mwyn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau newidiol hyn, heb godi cost ychwanegol ar gwsmeriaid, gan symud mwy o gwsmeriaid i ddulliau ymgysylltu digidol di-dor a chynnal sianeli amgen ar gyfer pobl y mae'n well ganddynt godi'r ffôn.

> Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi cynyddu nifer y cwsmeriaid ar ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth bedair gwaith.

### Cwsmeriaid ag anghenion ychwanegol

Fel darparwr gwasanaethau hanfodol, mae dyletswydd arnom i fodloni gofynion ein cwsmeriaid sydd wynebu amgylchiadau bregus neu sydd ag anghenion penodol. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi cynyddu nifer y cwsmeriaid ar ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth bedair gwaith, ac erbyn diwedd mis Mai 2023, roeddem yn cefnogi 133,000 o gwsmeriaid drwy gynnig bil is iddynt drwy dariffau cymdeithasol (gan gynnwys WaterSure).

Mae ein gwaith gyda chwmnïau cyfleustodau eraill, awdurdodau lleol a sefydliadau partner yn hollbwysig i godi ymwybyddiaeth o'n cofrestr gwasanaethau â blaenoriaeth a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i rannu data, fel y gallwn fod yn rhagweithiol wrth nodi cwsmeriaid y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Byddwn yn parhau i hyfforddi ein pobl i adnabod yr arwyddion pan y gall cwsmeriaid fod yn agored i niwed a'u grymuso i wneud y penderfyniadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob cwsmer sy'n agored i niwed yn cael y cymorth sydd ei angen arno.

### Busnesau

Mae ein cwsmeriaid dibreswyl yn amrywio o siopau bach i awdurdodau lleol a safleoedd diwydiannol enfawr. Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr lle mae gwasanaethau manwerthu yn agored i gystadleuaeth yn y farchnad, gallwn ddarparu gwasanaeth cwbl integredig i'r mwyafrif o'r cwsmeriaid hyn ar draws y sector cyfanwerthu a manwerthu. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein cwsmeriaid busnes yn cael gwasanaeth sydd gystal â'r gwasanaeth gorau sydd ar gael yn Lloegr o leiaf.

Mae gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn golygu gwneud y pethau sylfaenol yn dda, ond byddwn hefyd yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau yn unol â'n gweledigaeth. Mae ein Cynllun Busnes yn esbonio sut rydym yn gwneud hyn mewn meysydd megis tariffau cymdeithasol, gwasanaethau ychwanegol i gwsmeriaid sy'n agored i niwed a biliau teg i gwsmeriaid sy'n dioddef methiannau gwasanaeth mynych.

# 10. Cydnerthedd a diogelwch

Bwriedir i bopeth a wnawn sicrhau parhad ein gwasanaeth i gwsmeriaid ac atal niwed i'r amgylchedd – ac adfer yn gyflym ac unioni pethau pan fydd pethau'n mynd o chwith. Felly, mae 'cydnerthedd' yn cwmpasu ein holl weithgarwch gweithredol, ynghyd â'r dulliau sy'n sail i gydnerthedd ariannol a chorfforaethol. Yn ogystal, rydym yn ymwneud mwy a mwy ag atal a lliniaru bygythiadau tebygolrwydd isel ac effaith uchel, yn enwedig pan fo lefelau'r risg yn cynyddu dros amser.

Er mwyn ymateb i hyn, fel y nodir uchod, rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn cydnerthedd yn y rhwydwaith dŵr yn AMP8, er enghraifft trwy gynyddu cyfradd adnewyddu prif gyflenwad AC a gwella ein gallu i symud dŵr rhwng parthau cyflenwi. O ran dŵr gwastraff, rydym yn canolbwyntio ar bibellau ymgodol sy'n peri risg gynyddol i ardaloedd sy'n sensitif yn amgylcheddol.

> Mae gan bawb sy'n gweithio i Dŵr Cymru, neu ar ein rhan, hawl sylfaenol i ddychwelyd adref yn ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod.

Mae gennym ddyletswyddau statudol fel gweithredwyr seilwaith cenedlaethol critigol (CNI), ac mae'n rhaid i ni fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD). Bydd angen uwchraddio safleoedd sydd newydd gael eu dynodi'n CNI yn AMP8. A bydd ein rhaglen ddiogelwch yn cryfhau mesurau i ddiogelu rhag tresmaswyr, gan leihau'r risg o niwed i aelodau o'r cyhoedd a difrod i asedau neu'r cyflenwad dŵr.

### Llifogydd

Mae ein cynllun PR24 yn rhan o raglen hirdymor i sicrhau ein bod yn rheoli'r risgiau hyn yn briodol ac yn cynnal ein cydnerthedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymaddasu i newid hinsawdd.

Rydym wedi gweld nifer o achosion difrifol o lifogydd yng Nghymru ers PR19, yn enwedig storm Dennis ym mis Chwefror 2020 a storm Christoph ym mis Ionawr 2021. Gwnaethom lwyddo i leihau'r effaith ar

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynnal perfformiad yn y chwartel uchaf ar fesur profiad cwsmeriaid preswyl C-MeX.
- Cynnal ein perfformiad cryf mewn perthynas â boddhad cwsmeriaid dibreswyl, gan sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion amrywiol wrth ddarparu gwasanaeth sydd gystal â'r gwasanaeth cwsmeriaid gorau sydd ar gael yn Lloegr.
- Anelu at fod y cwmni sy'n perfformio orau o ran boddhad cwsmeriaid sy'n ddatblygwyr.
- Sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn hygyrch i bob cwsmer, gan gadw ein canolfan gyswllt yng Nghymru fel y gall ein cwsmeriaid bob amser godi'r ffôn a siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg â pherson go iawn a all eu helpu.
- Ehangu'r gwasanaethau ar-lein a ddarperir gennym a sicrhau ein bod yn mabwysiadu technolegau gwasanaethau cwsmeriaid newydd a all gyflawni canlyniadau a gwerth gwell yn gyflym.
- Mynd i'r afael â phethau sy'n peri niwsans a boddhad isel ymysg cwsmeriaid, megis problemau arogl yng ngwaith trin dŵr gwastraff Abertawe, a'r 'cwsmeriaid sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf' mewn perthynas â llifogydd.

wasanaethau i gwsmeriaid, ond byddwn yn buddsoddi £5 miliwn i ddiogelu gwaith trin dŵr hanfodol rhag llifogydd cyn 2030, ac yn dechrau rhaglen tymor hwy i ddiogelu gwaith trin dŵr gwastraff rhag llifogydd yn AMP9 a thu hwnt.

### Seiberddiogelwch

Mae ymosodiadau seiber yn fygythiad arall sy'n mynd yn fwyfwy difrifol. Ystyrir ein bod yn Weithredwr Gwasanaethau Hanfodol yn unol â'r Rheoliadau Systemau Gwybodaeth a Rhwydwaith, ac mae gofyn i ni fodloni'r canllawiau a'r rheoliadau sy'n datblygu mewn perthynas â seiberddiogelwch. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ôl yr angen er mwyn rheoli'r risg hon a diogelu data cwsmeriaid, gan gynnwys drwy wella ein gallu i adnabod bygythiadau ac ymateb iddynt. Byddwn yn buddsoddi £23 miliwn i uwchraddio safleoedd sydd newydd gael eu dynodi'n sefydliadau Seilwaith Cenedlaethol Critigol, a £11 miliwn i wella mesurau diogelwch yn erbyn ymosodiadau seiber.

### Diogelwch

Mae darparu gwasanaeth dibynadwy a chydnerth yn dibynnu ar ein gweithwyr, sy'n gweithio mewn amodau hynod heriol pan fydd cyfnodau o dywydd garw er mwyn cynnal gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae'r gyfradd uchel o swyddi gwag yn yr economi ar hyn o bryd yn ein hatgoffa pa mor bwysig yw bod yn gyflogwr gwych er mwyn denu a chadw'r doniau a'r teyrngarwch sydd eu hangen arnom yn yr hirdymor.

Credwn fod gan bawb sy'n gweithio i Dŵr Cymru, neu ar ein rhan, hawl sylfaenol i ddychwelyd adref yn ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod. Rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau amgylchedd heb unrhyw anafiadau ac mae gennym strategaeth hirdymor i wella iechyd, diogelwch a llesiant. Byddwn yn parhau i wneud cynnydd yn AMP8 tuag at sicrhau nad oes unrhyw anafiadau lle collir amser drwy gael gwared ar beryglon a lleihau risgiau i iechyd a diogelwch.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Buddsoddi £157 miliwn i wneud y rhwydwaith cyflenwi dŵr yn fwy cydnerth.
- Buddsoddi £131 miliwn i leihau'r risg gefndirol o achosion difrifol o lygredd.
- Buddsoddi £23 miliwn i uwchraddio mesurau diogelwch a threfniadau eraill ar ein safleoedd, er mwyn bodloni gofynion CNI a SEMD.
- Buddsoddi £5 miliwn erbyn 2030 i ddiogelu pob gwaith trin dŵr hanfodol rhag llifogydd o ganlyniad i storm, sy'n digwydd unwaith bob 30 mlynedd.
- Paratoi rhaglen fuddsoddi hirdymor i ddiogelu gwaith trin dŵr gwastraff rhag llifogydd wrth i'r hinsawdd newid.
- Buddsoddi £11 miliwn i wella ein systemau a'n galluoedd seiberddiogelwch gan barhau i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i fygythiadau newydd.
- Parhau i fireinio a datblygu ein Fframwaith Cydnerthedd er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o safon fyd-eang sy'n cwmpasu pob agwedd ar gydnerthedd.

# 11. Effeithlonrwydd ac arloesedd

Fel y rhan fwyaf o fusnesau eraill, rydym yn ymdopi ag amgylchedd cost chwyddiannol ar hyn o bryd sy'n peri cryn her i'r gost derfynol. Er nad yw'r cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni wedi cael llawer o effaith uniongyrchol ar ein costau ynni hyd yn hyn o ganlyniad i'n strategaeth ymddiogelu lwyddiannus, mae wedi effeithio ar fewnbynnau allweddol eraill fel cemegion, a gallai hyn gael effaith sylweddol ar AMP8. Mae'r costau ychwanegol yr aed iddynt i ymdrin â thywydd eithafol, yn enwedig ar yr ochr cyflenwi dŵr, wedi gwneud yr amgylchedd cost yn fwy heriol byth.

> Mae arloesedd yn hollbwysig i ateb yr her o ran costau a chyflawni ein huchelgeisiau hirdymor yn erbyn cefndir o hinsawdd sy'n newid a disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid.

### Technoleg

O ystyried y cynnydd mewn costau yn ystod y cyfnod hwn, caledi cwsmeriaid a'r cynnydd o ran anghenion buddsoddi, bydd angen i ni fynd gam ymhellach yn y cyfnod nesaf i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl. Mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ymrwymiad i leihau costau gweithredu £42 miliwn y flwyddyn erbyn 2029/30 (11%) ac rydym yn datblygu rhaglen flaenllaw i gyflawni hyn. Yn unol â hyn, byddwn yn ceisio mabwysiadu technoleg arloesol a dod o hyd i ffyrdd gwell o weithio, gan gynnwys drwy gydweithio'n agosach â phartneriaid a rhanddeiliaid.

Mae arloesedd yn hollbwysig i ateb yr her o ran costau a chyflawni ein huchelgeisiau hirdymor yn erbyn cefndir o hinsawdd sy'n newid a disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid. Yn ystod AMP7, rydym wedi cryfhau ein cydberthnasau â phrifysgolion, cwmnïau ymchwil a gweithwyr proffesiynol ym maes arloesi ac ymchwil mewn cwmnïau dŵr eraill. Mae canolfan ragoriaeth arloesedd newydd y diwydiant dŵr – Spring Innovation – wedi cynnig cyfleoedd ychwanegol i gydweithio.

Mae ein Strategaeth Arloesi, a ddiwygiwyd yn 2022, yn nodi sut y byddwn yn manteisio i'r eithaf ar bedwar galluogydd arloesedd allweddol: adnoddau, cyd-greu a chyfathrebu, prosesau a systemau, a phobl a diwylliant. Rydym wedi bod yn gysylltiedig â Chronfa Arloesi Ofwat ers iddi gael ei lansio yn 2020, ac roeddem wedi arwain pedwar prosiect a chefnogi 24 o brosiectau eraill erbyn mis Awst 2023.

### Partneriaethau

Ni yw'r unig gwmni dŵr sydd â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth strategol gyda Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol. Mae gennym hefyd bartneriaeth strategol â Phrifysgol Caerdydd ac rydym yn datblygu amrywiaeth o fentrau effeithiol gyda hi. Mae'r gwaith partneriaeth hwn wedi galluogi sawl secondiad i'r busnes ar gyfer astudiaethau dalgylchoedd ac mae'n sicrhau bod gofynion ymchwil Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol yn canolbwyntio ar ein hanghenion ac anghenion y sector dŵr ehangach.

Ar y cyfan, rydym yn cydweithio â mwy na 100 o sefydliadau partner ac rydym wedi sicrhau £95 miliwn o gyllid ar gyfer Ymchwil a Datblygu hyd yn hyn yn AMP7. Mae'r Gronfa Arloesi yn cynyddumewn maint i £300 miliwn yn ystod AMP8 a bydd cynllun ariannu newydd gwerth £100 miliwn sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd dŵr. Byddwn yn ceisio achub ar bob cyfle sydd ar gael i ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu, rhannu'r gwersi a ddysgwyd â'r sector ehangach a lleihau costau i gwsmeriaid.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Lleihau ein costau gweithredu £42 miliwn y flwyddyn erbyn 2030.
- Targedu safle yn y chwartel uchaf yn y diwydiant o ran costau cynnal a chadw sylfaenol a gweithrediadau cyfanwerthu.
- Rhoi canfyddiadau'r gwaith ymchwil ac ymchwilio a ariannwyd yn AMP7 ar waith fel y gallwn sicrhau cymaint o werth â phosibl yn AMP8 a thu hwnt.
- Ceisio manteisio ar y cyfleoedd o'r Gronfa Arloesi a'r Gronfa Effeithiolrwydd Dŵr newydd.
- Cynnal Cynhadledd Arloesi bob dwy flynedd i ddathlu llwyddiant, ymchwilio i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg a datblygu partneriaethau newydd.
- Adeiladu ar ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol a chyda Phrifysgol Caerdydd.

# 12. Biliau a fforddiadwyedd

Yn ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor, rydym wedi ystyried yr heriau sydd o'n blaen dros y 25 mlynedd nesaf a'r buddsoddiad sydd ei angen. Mae hyn wedi dangos yn glir fod angen buddsoddi llawer mwy nid dim ond nawr ond yn yr hirdymor, a bydd angen gwneud hyn fesul cam er mwyn sicrhau y gallwn ei gyflawni, ei fforddio a'i gyllido.

Bydd newid sylweddol yn lefel y buddsoddiad yn AMP8, ac mae'r mwyafrif helaeth ohono yn wariant gorfodol sydd ei angen er mwyn cyrraedd safonau amgylcheddol statudol newydd, cynnal cydymffurfiaeth â rheoliadau, diogelu ein hargaeau a'n cronfeydd dŵr ac ymaddasu i newid hinsawdd.

### Biliau

Bydd hyn yn cyflwyno her sylweddol o ran cyllido a chyflawni cyfalaf. Rydym wedi ystyried hyn yn ofalus ac rydym yn hyderus, er y bydd yn heriol, y gallwn gyflawni a chyllido'r cynllun.

Er y bydd arloesedd ac effeithlonrwydd yn helpu i reoli costau, bydd talu am y buddsoddiad hwn yn cael effaith anochel ar ein cwsmeriaid, sydd wedi arfer â thalu biliau dŵr sefydlog neu ostyngol mewn termau real dros y 10-15 mlynedd diwethaf. Rydym wedi ymgynghori'n eang â chwsmeriaid ynglŷn â'r mater hwn ac mae'r mwyafrif yn derbyn bod angen buddsoddi mwy, ac nid ydynt am i ni ohirio'r buddsoddiad hwn.

> Bydd bil aelwyd arferol yn codi 26% mewn termau real erbyn 2030 o gymharu â 2025.

Bydd biliau cyfartalog i gwsmeriaid preswyl yn cynyddu o £463 yn 2024/25 i £581 yn 2029/30 yn ôl yr amcangyfrifon (prisiau 2022-23 – h.y. heb ystyried effaith chwyddiant), sef cynnydd o 26%. Er bod hwn yn newid sylweddol, credwn fod y gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff a ddarperir gennym yn cynnig gwerth da am arian o hyd. Mae ein Cynllun Busnes wedi cael ei optimeiddio er mwyn darparu pecyn 'gwerth gorau' o fuddiannau i gwsmeriaid a'r amgylchedd yn yr hirdymor sy'n angenrheidiol ac na ddylid eu gohirio.

## Fforddiadwyedd

Yn ein hymchwil, cyn iddynt gael manylion y buddsoddiad y byddai'r cynnydd arfaethedig mewn biliau yn ei wneud yn bosibl, dywedodd 47% o gwsmeriaid y byddai'r biliau arfaethedig yn 'anodd fforddio eu talu' o gymharu â 15% a ddywedodd y byddent yn ei chael yn 'hawdd'. Fodd bynnag, pan ofynnwyd a oedd y cynllun yn dderbyniol ar ôl cael gwybodaeth am berfformiad a buddsoddiad yn y cynllun, dywedodd mwyafrif llethol (84%) ei fod. Roedd 80% o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn cael trafferthion ariannol hefyd yn ystyried y cynllun yn dderbyniol. Ystyriwn fod hyn yn dangos bod yna gymeradwyaeth gref o'n cynllun yn gyffredinol.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â phryderon o ran fforddiadwyedd, byddwn yn parhau i ddarparu ein tariffau cymdeithasol sy'n arwain y sector, sy'n cynnig bil is sefydlog i gwsmeriaid cymwys sy'n wynebu caledi. Mae ein tariff HelpU wedi'i osod ar £277 ar hyn o bryd – disgownt o 40% o gymharu â bil aelwyd arferol, sef £463. Mae 97,000 o gwsmeriaid ar dariff HelpU ar hyn o bryd, ac mae 35,000 arall ar WaterSure Cymru.

Mae ein hagwedd hael at dariffau cymdeithasol yn bosibl oherwydd ein model nid-er-cyfranddeiliaid. Yn AMP8, byddwn yn cyfrannu £13 miliwn y flwyddyn tuag at dariffau cymdeithasol, sy'n cyfuno â'r traws-gymhorthdal gan y cwsmeriaid yn gyffredinol. Bydd hyn yn rhoi'r gallu inni ymdopi â'r cynnydd a ragwelir mewn diweithdra dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a disgwyliwn y bydd y galw am ein tariffau cymdeithasol yn codi i 190,000. Byddwn hefyd yn anelu at helpu cwsmeriaid ar HelpU rhag y cynnydd cyffredinol mewn biliau cyn belled ag y bo modd o fewn y cyllid sydd ar gael.

Rydym wedi lansio cynllun 'Cymuned' newydd yn ddiweddar i gefnogi cwsmeriaid sy'n gweithio sy'n wynebu anawsterau ariannol ac y mae angen cymorth byrdymor arnynt gyda'u bil. Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath yn y diwydiant. Dyma un enghraifft yn unig o'r ffordd rydym yn ceisio ymateb i anghenion cwsmeriaid, yn dibynnu ar yr amgylchedd economaidd, a byddwn yn parhau i wneud hynny beth bynnag fydd yn digwydd yn ystod y pum mlynedd nesaf.

## Cydbwysedd

Ar y cyfan, credwn fod ein cynllun yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng uchelgais a fforddiadwyedd. Mae'n rhaid i ni ddatblygu ein hymateb i'r heriau presennol a heriau'r dyfodol a gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r uchelgeisiau ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru dros y 25 mlynedd nesaf. Ar y llaw arall, mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod y pwysau ariannol ar gwsmeriaid, a chyfyngu ar gynnydd i filiau gymaint ag y gallwn, gan sicrhau bod ein gwasanaeth yn parhau i fod yn fforddiadwy i bawb yn yr hirdymor.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rydym wedi cael ein harwain gan safbwyntiau Fforwm PR24 Cymru, ac rydym wedi trafod ein cynnig ag ef. Mae'r Fforwm wedi cydnabod bod angen cynyddu buddsoddiad ac, felly, godi biliau, wrth reoli'r effaith dros amser a chefnogi'r rhai sydd fwyaf sensitif i gynnydd mewn prisiau. Mae ein Grŵp Herio Annibynnol wedi cryfhau llais cwsmeriaid wrth sicrhau ein bod yn cyflwyno cynllun sy'n ymestynnol ac yn unol â blaenoriaethau cwsmeriaid yn ogystal â blaenoriaethau rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill.

Dŵr Cymru
Welsh Water

dwrcymru.com